ATODLEN 3

## Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003

**1.** Ailrifer rheoliad 2 (dehongli) yn rheoliad 2(1) ac—

(a) ar ôl y diffiniad o "awdurdod cynllunio lleol" a geir yn y rheoliad hwnnw, mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"mae i "cyfathrebu electronig" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyr sydd i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**1**);";

(b) yn y diffiniad o "holiadur" a geir yn y rheoliad hwnnw, ar ôl y geiriau "Rheoliadau hyn", mewnosoder—

", ac, at y diben hwn, cymerir fod ffurflen wedi'i darparu pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i chyhoeddi ar wefan ac wedi hysbysu awdurdod cynllunio lleol—

(a) ei fod wedi cyhoeddi'r ffurflen ar y wefan;

(b) o gyfeiriad y wefan; ac

(c) ymhle ar y wefan y gellir dod o hyd i'r ffurflen a sut y gellir ei chyrchu;".

(**1**) 2000 p.7.